Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Miri Mawr Nursery

**19 Heol Gabalfa**
**Ystum Taf**
**Cardiff**
**CF14 2JH**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Miri Mawr Nursery

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Miri Mawr Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal llawn amser |
| Person(au) cofrestredig | Miri Mawr Nursery |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Meinir Williams |
| Person â gofal | E. Wendy Wylie a Meinir Williams |
| Nifer y lleoedd | 36 |
| Amrediad oedran y plant | 6 wythnos i 5 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 17 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener, 8.00yb i 6.00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 22/09/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 09/06/2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 28/11/2023 |
| Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dod o gartrefi lle mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg. | |

## Crynodeb

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r PC/UC roi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Cryfhau'r berthynas rhwng deilliannau'r broses hunanwerthuso a blaenoriaethau cyfredol y lleoliad

A2 Mynd i'r afael â'r materion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau ynglŷn â ble i chwarae. Mae teimladau'r plant yn cael eu hystyried a'u hadnabod gan yr ymarferwyr yn briodol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu'n llwyddiannus ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent wedi datblygu perthynas agos â'r ymarferwyr ac yn hyderus iawn wrth sgwrsio'n anffurfiol ag ymwelwyr. Er enghraifft, maent yn awyddus i ddangos anifeiliaid y jyngl a thrafod rhannau'r corff, fel gwddw hir jiráff. Mae bron bob un yn gyfarwydd â'r amserlen a threfniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n rhwydd â'r gweithdrefnau.

Mae'r plant yn datblygu medrau cymdeithasu buddiol. Maent yn croesawu ffrindiau yn frwdfrydig gan gyfarch ei gilydd ac mae'r mwyafrif yn cyd-chwarae'n hapus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais, gan ddangos parch tuag at ymarferwyr, cyfoedion ac ymwelwyr. Er enghraifft, wrth y bwrdd bwyd, maent yn aros eu tro yn amyneddgar ac yn ymateb yn briodol gyda chefnogaeth yr ymarferwyr. Maent yn cydweithio yn dda â'i gilydd yn yr ardal allanol gan symud offer er mwyn creu ardal chwarae newydd ddychmygus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Mae hyn yn amlwg yn y sesiynau di-dor wrth i'r plant hŷn symud o un weithgaredd i'r llall yn hyderus, gan ddewis gweithgareddau sy'n eu sbarduno. Yn y gegin chwarae rôl, maent wrth eu bodd yn coginio'n ddychmygus gyda bwydydd go iawn fel pasta. Mae plant iau yn cael llawer o hwyl wrth iddynt chwarae'n hapus yn y pwll peli. Maent yn gwichian gyda chyffro ac yn gwenu'n llon wrth daflu peli.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn dda. Ar ôl cyrraedd yn y bore, maent yn gosod eu heiddo ar fachyn ac yn mynd yn hyderus at eu ffrindiau I chwarae. Mae'r rhan fwyaf o blant yn y sesiynau rhydd yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal i'r llall, gan gynnwys yr ardal allanol. Maent yn cymryd cyfrifoldeb dros helpu i dacluso ar ddiwedd gweithgareddau ac am eu hylendid personol. Er enghraifft, maent yn golchi dwylo ar ôl bod yn y tŷ bach neu cyn amser bwyd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cadw at weithdrefnau dyddiol y lleoliad yn briodol. Gwna'r ymarferwyr ymdrech i sicrhau gweithdrefnau hylendid da. Er enghraifft, maent yn dilyn gweithdrefnau wrth newid clwt, yn glanhau byrddau cyn bwyta ac yn golchi eu dwylo yn aml. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau cymorth cyntaf ar gael ar gyfer bob ardal o'r feithrinfa ac ar gyfer ymweliadau. Mae gan leiafrif o'r ymarferwyr dystysgrif cymorth cyntaf briodol sy'n eu galluogi i ddelio â damweiniau a mân anafiadau yn gymwys. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo arferion da o ran sicrhau bod y plant yn cadw'n iach drwy gynnig bwydlen iachus a chytbwys. Maent yn hyderus ar sut i weithredu pe bai ganddynt unrhyw bryder am ddiogelwch plentyn ac yn ymwybodol o'u dyletswyddau unigol i ddiogelu plant. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion o ddamweiniau sy'n cael eu llofnodi gan y rhieni er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhannu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas agos a chynnes â'r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. O ganlyniad, mae hyn yn cymell y plant i ymddwyn yn dda. Mae ymarferwyr yn dilyn y polisi ymddygiad ac yn gosod esiampl dda o ymddygiad cadarnhaol drwy fanteisio ar bob cyfle i ganmol y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio iaith gadarnhaol gyda'r plant sy'n hyrwyddo ymddygiad da ac yn cefnogi'r plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn hwyluso datblygiad cymdeithasol y plant drwy eu hannog i helpu gyda thasgau syml. Er enghraifft, yn ystod amser bwyd, caiff y plant gyfle i helpu osod y bwrdd. Mae ymarferwyr yn cefnogi drwy annog y plant i ddweud diolch ac yn canmol y plant wrth iddynt gyflawni tasgau'n llwyddiannus. Mae hyn yn

effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad hunanhyder y plant a’u dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu ei gilydd.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn parchu eu dymuniadau a’u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb i geisiadau plant i goginio swper dychmygus yn y gornel chwarae rôl. Mae ymarferwyr yn datblygu cyfleoedd effeithiol i ymateb i ddiddordebau’r plant, ac yn eu holi’n bwrpasol wrth chwarae. Maent yn sensitif i blant sy’n dewis peidio ag ymgymryd â thasgau penodol ac, ar y cyfan, yn gadael iddynt ddewis eu trywydd eu hunain. Mae ymarferwyr yn cefnogi unrhyw blentyn sydd ag anghenion ychwanegol ac yn defnyddio’r wybodaeth i ddarparu’r hyn sydd ei angen arnynt. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o ddathliadau fel y flwyddyn newydd Tsieineaidd a dydd Gŵyl Dewi ac o bwysigrwydd gwaith elusennol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae’r ymarferwyr yn meithrin perthynas hyfryd â’r plant. Wrth gyrraedd yn y bore, mae ymarferwyr yn cefnogi’r plant i ymgartrefu. O ganlyniad, mae’r plant yn awyddus i fynd i chwarae gyda’u ffrindiau ac yn cyfarch yr ymarferwyr yn gyfeillgar.

Mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol i gynllunio a darparu ystod eang o brofiadau amrywiol a difyr. Maent yn sbarduno‘r plant i ddatblygu eu medrau allweddol mewn cyd-destunau diddorol a heriol. Er enghraifft, wrth ddarparu cyfleoedd i greu castell tylwyth teg, mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i beintio wal, ac i wasgu, tynnu a thorri clai. Mae hyn yn datblygu medrau corfforol, creadigol a datrys problemau plant yn ogystal â’u medrau cyfathrebu. Mae’r ymarferwyr yn cefnogi datblygiad ieithyddol y plant yn effeithiol. Maent yn sgwrsio’n naturiol gyda’r plant wrth iddynt chwarae. O ganlyniad, mae’r plant yn datblygu’n siaradwyr hyderus. Mae ymarferwyr yn manteisio’n effeithiol ar gyfleoedd i ddatblygu rhifedd trwy sicrhau darpariaeth sy’n annog hyn yn naturiol. Er enghraifft, wrth chwarae gyda’r blociau, mae’r plant yn sylwi ar siâp a lliw, yn cyfateb a didoli i greu twr sy’n dalach na nhw. Maent yn rhoi cyfleoedd gyda’r camerâu i’r plant ddatblygu medrau digidol priodol.

Mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigol y plant yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd i ddatblygu eu medrau allweddol trwy gynnig darpariaeth gyfoethog mewn awyrgylch gefnogol sy’n caniatau i’r plant wneud dewisiadau’n annibynnol. Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn dilyn eu diddordebau unigol.

Mae ymarferwyr yn amyneddgar, ac yn pwyso a mesur yn ofalus pryd a sut i ymyrryd er mwyn cyfoethogi’r dysgu yn naturiol. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod bob plentyn yn cael cyfle i siarad a thrafod a bod eu cyfraniadau’n cael eu gwerthfawrogi. Maent yn annog y plant i ymateb ar lafar gan fodelu a chefnogi’n fedrus trwy ganu caneuon a modelu patrymau iaith cywir. Mae hyn yn ymestyn medrau llafar y plant yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn arsylwi'n fedrus ar y plant ac maent yn gweithredu trefniadau pwrpasol i gofnodi eu datblygiad. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol wrth gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu ac i drafod datblygiad y plant gyda'u rhieni.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo diwylliannau Cymru a gwledydd eraill mewn ffyrdd amrywiol trwy ganeuon, straeon, celf a chrefft a blasu bwydydd. Er enghraifft, maent yn annog y plant i greu lampau difa, llusernau a phatrymau Rangoli tra'n dysgu am Diwali. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, mae plant yn dysgu am gwrteisi, i rannu a chymryd tro amser byrbryd bore.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n ofalus mewn amgylchedd diogel. Maent yn cadw cofnod o ymwelwyr ac yn sicrhau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys. Mae ymarferwyr yn ymarfer driliau tân bob chwe mis er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau i'w dilyn mewn argyfwng. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gwiriadau i'r adeilad a cherbydau yn cael eu gwneud mewn modd amserol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod asesiadau risg ar waith ar gyfer y lleoliad ac ar gyfer ymweliadau ac mae ymarferwyr yn eu gweithredu er mwyn diogelu'r plant. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod systemau ar gyfer casglu a derbyn plant ar ddechrau a diwedd sesiynau yn drwyadl.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn derbyn gofal ac addysg mewn amgylchedd sydd wedi ei gynllunio a'i osod i hyrwyddo annibyniaeth y plant a'u hannog i ddysgu. Mae arweinwyr yn darparu cyfleusterau toiled addas o fewn yr adeilad sy'n sicrhau cyfleoedd i barchu preifatrwydd plant. Caiff y plant gyfle i symud rhwng yr ardal tu fewn a thu allan yn ystod y sesiynau rhydd di-dor sy'n eu galluogi i wneud penderfyniadau syml am yr hyn maent yn dymuno'i wneud.

Mae'r ardaloedd chwarae yn sbarduno dychymyg y plant yn arbennig o dda ac yn eu galluogi i gymryd risgiau priodol, fel dringo a chydbwyso ar y ffrâm ddringo ac ar flociau pren. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau yn llwyddiannus yn ystod gweithgareddau rhydd a ffocws. Mae'r ardaloedd tu fewn a thu allan wedi eu trefnu'n fwriadus i gynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n annog y plant i symud o un gweithgaredd i'r llall yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn creu ymdeimlad o berthyn drwy arddangos lluniau'r plant a'u teuluoedd yn ogystal â dathlu gwaith y plant.

Mae ymarferwyr yn cadw adnoddau ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol. O ganlyniad, mae llawer o blant yn hollol gyfarwydd ag estyn a dychwelyd offer i'r mannau priodol. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol ac o safon uchel, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a deunyddiau er mwyn galluogi'r plant i arbrofi a darganfod. Er enghraifft, mae cyfleoedd da iawn i arbrofi â chynhwysyddion, yn ogystal â defnyddio pridd a deunyddiau naturiol eraill yn y gegin fwd er mwyn coginio dychmygol. Yn ogystal,

anogir datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda drwy gael mynediad effeithiol at deganau a llyfrau amlddiwylliannol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol â'r ymarferwyr brwdfrydig i wireddu eu gweledigaeth o greu lleoliad hapus, croesawgar a chartrefol sy'n hyrwyddo lles a datblygiad medrau allweddol y plant. Maent yn sicrhau darpariaeth gyfoethog o safon uchel pwrpasol i alluogi'r ymarferwyr i weithredu'n llwyddiannus i gynnig ystod eang o brofiadau ar gyfer y plant.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd i ymarferwyr i leisio eu barn, cynnig awgrymiadau neu rannu pryderon. Mae hyn yn digwydd trwy gyfarfodydd staff wythnosol, trafodaethau anffurfiol a chyfarfodydd blynyddol i drafod anghenion datblygiad yr ymarferwyr. Mae'r arweinwyr yn annog ymarferwyr i fynychu hyfforddiant buddiol a pherthnasol sy'n cyfrannu at eu datblygiad personol. Mae arweinwyr yn arsylwi ar waith yr ymarferwyr yn anffurfiol ac yn cynnig arweiniad sy'n eu galluogi i ddatblygu eu hymarfer.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau defnyddiol i werthuso gwaith y lleoliad ac maent yn eu gweithredu'n barhaus er mwyn adnabod cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae ymarferwyr yn cyfrannu'n weithredol at y broses hon. Mae arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd annibyniaeth a llais y plentyn, cyfraniad a datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr a phwysigrwydd partneriaeth, yn enwedig gyda rhieni. O ganlyniad, maent yn gwneud gwelliannau buddiol i'r lleoliad, fel addasu'r ardal allanol ar gyfer darparu gweithgareddau awyr agored. Fodd bynnag nid yw'r berthynas rhwng deilliannau'r hunanwerthusiad a'r blaenoriaethau gwella bob amser yn ddigon eglur.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel. Er hyn, nid yw'r arweinwyr bob amser yn sicrhau bod pob gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei adnewyddu.

Mae arweinwyr yn annog ymarferwyr i fynychu hyfforddiant a datblygu'n broffesiynol er mwyn gwella ansawdd yr addysgu. Maent yn defnyddio eu cyllid ac arian grant yn ddeallus i wella profiadau'r plant. Er enghraifft, maent wedi prynu lloches sy'n caniatáu i blant fod yn fwy annibynnol wrth wisgo dillad addas ar gyfer chwarae allan.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o bartneriaethau i ddarparu amrediad cyfoethog o brofiadau sy'n datblygu chwilfrydedd y plant. Er enghraifft, maent yn ymweld â pharciau lleol i ddysgu am yr amgylchedd ac yn gwahodd gwahanol ymwelwyr i sbarduno'r plant wrth gwrdd a dysgu am greaduriaid a thrychfilod.

Mae gan y lleoliad berthynas bositif â rhieni a gofalwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu defnyddiol a chyson yn fawr.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  02/02/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | The responsible individual must ensure that they have a current DBS. | Newydd |
| 38 | Reg 38 (1) (e) - Fire precautions - No fire drill completed since 2019. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 02 Chwefror 2024